

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | 150 1872–2022 | Ysgol Addysg

Astudiaethau israddedig mewn

# Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Addysg gychwynnol i Athrawon (TAR) Cynradd ac Uwchradd | t.12 |
| Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg | t.14 |
| Cyflogadwyedd | t.15 |
| Proffiliau Myfyrwyr | t.16 |
| Ymchwil yn yr Ysgol Addysg | t.17 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.18 |
| Sut i wneud cais | t.20 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2020
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2019
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD Y DYSGU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mehefin 2022), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.





# Croeso

Cafodd Ysgol Adysg Prifysgol Aberystwyth ei sefydlu yn 1892, a dyma un o'r adrannau Addysg hynaf yn y Deyrnas Unedig. Ein nod yw cyfuno'n traddodiadau gorau mewn rhagoriaeth academaidd â'r dulliau diweddaraf ym myd addysgu, ymgysylltu â myfyrwyr ac ymchwil.

P'un a eich bod yn penderfynu astudio gyda ni ar sail amser llawn neu ran-amser, cewch fod yn hyderus y byddwch yn datblygu sylfaen gadarn o ran gwybodaeth a dealltwriaeth yn ogystal â sgiliau trosglwyddadwy sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr.

Rydym yn cynnig ystod eang o gyrsiau, megis Astudiaethau Plentyndod, Addysg, TAR Cynradd ac Uwchradd, cyrsiau Datblygu Proffesiynol Parhaus i athrawon ar lefel Gradd Meistr, a graddau ymchwil mewn Addysg.

Wrth addysgu a bod yn weithgar ym maes ymchwil, rydym wedi ymrwymo i wasanaethu anghenion addysgol, diwylliannol, ieithyddol a chymdeithasol Cymru, ac ystyriwn fod cyfrannu i'r gymuned leol yn bwysig iawn. Wrth wneud hynny, gwerthfawrogwn yn fawr y gallu i gydweithio â darparwyr annibynnol yn y gymuned, ysgolion, awdurdodau unedol a sefydliadau addysgol eraill, yn lleol ac yn genedlaethol, yn ogystal â phartneriaid a sefydliadau eraill yn y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd ehangach. Drwy'r partneriaethau hyn, rydym yn mynd ati i wneud ymchwil ym maes addysg a lles, datblygu rhyngwladol, polisïau addysg, addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg i deuluoedd y lluoedd arfog.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi amlinelliad o'r meysydd pwnc a'r modiwlau sydd ar gael, ynghyd â gwybodaeth ddefnyddiol arall. Blas ar yr hyn y gallwn ei gynnig ichi sydd yma, ac rydym yn eich annog i ddod i ymweld â ni i ganfod mwy. Dewch i gwrdd â'n cymuned fywiog o fyfyrwyr a staff. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n hadran a'n prifysgol.

**Dr Andrew Davies**
**Cyfarwyddwr, Ysgol Addysg**



# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl

Addysg t.3
Astudiaethau Plentyndod t.4
Astudiaethau Plentyndod Cynnar, gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar t.6
Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc t.8

## Gradd sylfaen

Addysg t.10



# Addysg

89% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh)

Mae'r radd hon mewn Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn eich galluogi i archwilio datblygiad plant a'r glasoed, gan gwmpasu materion sy'n hanfodol er mwyn deall systemau addysgol. Bydd ein cwrs yn eich cyffroi a'ch ysgogi a cheir ffocws penodol ar gefnogi dysgwyr trwy gydol y system addysg.

Mae gradd mewn Addysg yn gallu arwain at waith ym maes diwydiant, polisi neu'r sector elusennol, neu at hyfforddi fel athro neu athrawes cynradd. Mae'r pwnc yn cynnwys elfennau o seicoleg, cymdeithaseg, gwleidyddiaeth, a hanes. Mae'n ymchwilio i sut mae pobl yn dysgu, sut mae eu hamgylcheddau yn dylanwadu ar eu dysgu, sut rydym yn gwneud penderfyniadau, a sut mae ein dealltwriaeth o ddysgu ac addysgu wedi datblygu dros y blynyddoedd. Mae'r lleoliadau arsylwi yn ystod y radd yn eich helpu i gyfuno'r theori a'r ymarfer.

Cyhyd â'ch bod yn bodloni'r gofynion mynediad, cewch warant o gyfweliad am y Dystysgrif Addysg i Raddedigion Cynradd (TAR) yma.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Addysg yn Aberystwyth:

- cyngor gan gydlynydd cyflogadwyedd a fydd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael yn y maes
- amrywiaeth eang o dechnegau asesu gan gynnwys posteri, gemau, traethodau a chyflwyniadau, sy'n eich galluogi i roi'r pwyslais ar eich cryfderau
- cyfle i astudio eich hoff bwnc law yn llaw ag Addysg.

**Sylwch:** Bydd angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriad cyfatebol er mwyn dilyn rhai o fodiwlau'r radd hon.

**Cyflogadwyedd**
Bydd cynghorwr ymroddedig gyda phrofiad ym maes addysg yn gallu cynnig cyngor, a hynny o ddechrau eich blwyddyn gyntaf.

Ar wahân i ddysgu ar lefel Gynradd, mae graddedigion o'r Ysgol Addysg wedi symud ymlaen i yrfaoedd mewn meysydd amrywiol megis Therapi Lleferydd, Gwaith Cymdeithasol, Lles Plant, y diwydiant hamdden, y gyfraith, a gwaith ymchwil. Mae gradd mewn addysg hefyd yn gallu arwain at gyfleoedd mewn meysydd eraill, megis cymorth i fyfyrwyr yn y sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch, ac ym maes hyfforddiant.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Datblygiad a Dysgu Plant/ Children's Development and Learning
- Polisiau a Materion mewn Addysg/Policies and Issues in Education
- Datblygiad Iaith/Language Development
- Sgiliau Allweddol I Brifysgol/Key Skills for University.

**Yr ail flwyddyn:**
- Seicoleg Dysgu a Meddwl/Psychology of Learning and Thinking
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Gweithio gyda Phlant/Working with Children
- Diogelu ac Ymarfer Proffesiynol/Safeguarding and Professional Practice.

**Y flwyddyn olaf:**
- Hawliau Plant/Children's Rights
- Gwerthuso ac Adlewyrchu ar Sgiliau Dysgu yn Gritigol/Critically Reflecting and Evaluating Learning and Skills
- Traethawd Hir/Major Dissertation
- Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol/ Emotional and Social Development.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** X302.

**Hyd:** 3 blynedd.

# Astudiaethau Plentyndod

89% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

Bydd y radd hon yn eich galluogi i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen er mwyn rhagori mewn proffesiynau sy'n ymwneud â phlant. Yn yr Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym yn archwilio ystod eang o feysydd a ffactorau sy'n dylanwadu ar blentyn ac sy'n ganolog i ddatblygiad plentyn yn nes ymlaen.

Bydd y cwrs yn tynnu ar amrywiaeth o ddisgyblaethau er mwyn ehangu eich gwybodaeth a hybu meddwl beirniadol. Byddwch yn archwilio rhai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad plant, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o gefndir gwleidyddol a deddfwriaethol plentyndod a'i oblygiadau i blant a'u teuluoedd.

Yn rhan o'r cwrs, bydd cyfle ichi fynd i leoliadau addysgol, i arsylwi ar y gwaith sy'n digwydd mewn lleoliad addysgol/plentyndod.

Os hoffech fod yn athro neu'n athrawes, cyhyd â'ch bod yn cwrdd â'r gofynion mynediad, cewch warant o gyfweliad am y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Cynradd yma.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Astudiaethau Plentyndod yn Aberystwyth:

- amrywiaeth helaeth o ddulliau asesu gan gynnwys posteri, gemau, traethodau a chyflwyniadau
- systemau cymorth rhagorol i fyfyrwyr, gan gynnwys mentora myfyrwyr
- dewis o fodiwlau sy'n rhoi cyfle ichi arbenigo yn y meysydd sydd o ddiddordeb i chi
- cefnogaeth gan ein Cydlynydd Cyflogadwyedd a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael yn y maes.

**Sylwch:** Bydd angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriad cyfatebol er mwyn dilyn rhai o fodiwlau'r radd hon.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein rhaglenni gradd yn cynnig cyfleoedd gwaith addawol. Mae llawer o'n graddedigion wedi dilyn llwybrau yn y meysydd canlynol: addysgu ac addysg (yn cynnwys SEN), gofal cymdeithasol, nyrsio, therapi, lleferydd, gwaith cymdeithasol, lles plant, therapi chwarae, y diwydiant hamdden, cyfraith plant, ymchwil plentyndod.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y blwyddyn gyntaf:**

- Sgiliau Allweddol I Brifysgol/Key Skills for University
- Datblygiad a Dysgu Plant/ Children's Development and Learning
- Play and Learning: Theory and Practice
- Datblygiad Iaith/Language Development.

**Yr ail flwyddyn:**

- Seicoleg Dysgu a Meddwl/Psychology of Learning and Thinking
- Diogelu ac Ymarfer Proffesiynol/Safeguarding and Professional Practice
- Gweithio gyda Phlant/Working with Children
- Dulliau Ymchwil/Research Methods.

**Y flwyddyn olaf:**

- Hawliau Plant/Children's Rights
- Traethawd Hir/Major Dissertation
- Datblygiad Mathemategol yn y Blynyddoedd Cynnar/Mathematical Development in the Early Years.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** X320.

**Hyd:** 3 blynedd.





# Astudiaethau Plentyndod Cynnar, gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar

78% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

Gyda thros 700 o oriau o ymarfer mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar, diben y radd hon yw eich helpu i ddod yn berson graddedig medrus a chyflogadwy.

Gwneir hyn trwy ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, a sgiliau ymarferol. Bydd astudio yn y Brifysgol yn creu cefndir academaidd i'ch proffiadau ar leoliad, lle byddwch yn gweithio mewn tîm gyda staff i ofalu am ac addysgu plant ifanc. Yn y flwyddyn gyntaf, mae'r lleoliadau hyn yn arsylwadol ac yn yr ail a'r drydedd flwyddyn bydd y lleoliadau'n cael eu hasesu.:

- blant yn chwarae ac yn dysgu, a'u datblygiad a'u lles
- partneriaethau: gweithio gyda rhieni, gofalwyr, asiantaethau allanol ac mewn timau gydag ymarferwyr eraill
- diogelu a chydraddoldeb
- cwricwlwm y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys cyfathrebu, iaith, llythrennedd a datblygiad mathemategol
- sgiliau arwain.

Os ydych eisiau bod yn athro/athrawes, a chyhyd â'ch bod yn cwrdd â'r gofynion mynediad, cewch warant o gyfweliad ar gyfer y cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cynradd) yn Aberystwyth.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Astudiaethau Plentyndod Cynnar yn Aberystwyth:

- tiwtoriaid-ymarferwyr mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a thiwtor personol yn y Brifysgol
- modiwlau sydd wedi'u teilwra i'ch cynnydd o ran dysgu ac arfer.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflawni'r radd hon yn llwyddiannus yn arwain at 'Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar'. Golyga hyn y bydd gennych radd sy'n eich galluogi i fod yn ymarferydd proffesiynol mewn lleoliad gwaith y blynyddoedd cynnar (yn amodol ar gymwysterau llythrennedd a rhifedd perthnasol). Mae llawer o fyfyrwyr yn mynd ymlaen i fod yn rheolwyr ac arweinwyr mewn meithrinfeydd. Mae eraill yn dilyn y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR). Mae'r radd hon hefyd yn addas i'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r proffesiwn gwaith cymdeithasol neu'r maes therapi addysgol.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** X322.

**Hyd:** 3 blynedd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Sgiliau Allweddol I Brifysgol/Key Skills for University
- Datblygiad a Dysgu Plant/ Children's Development and Learning
- Partnerships in Principle and Practice
- Health and Wellbeing in the Early Years.

**Yr ail flwyddyn:**
- Diogelu ac Ymarfer Proffesiynol/Safeguarding and Professional Practice
- Llythrennedd mewn Plant Ifanc/Literacy in Young children
- Education, Equality and Diversity.

**Y flwyddyn olaf:**
- Datblygiad Mathemategol yn y Blynyddoedd Cynnar/Mathematical Development in the Early Years
- Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol/ Emotional and Social Development
- Communication.

Ceir modiwlau lleoliadau gwaith ym mhob blwyddyn o'r radd hon. Trefnir y lleoliadau ar ran myfyrwyr. Mae'n bosibl y bydd costau teithio yn gysylltiedig â rhai lleoliadau.

## Cwrs achredедig:

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

**Sylwch:** Bydd angen gwiriad DBS (Datgelu a Gwahardd) neu wiriad cyfatebol er mwyn cael eich derbyn ar y radd hon.



# Cynlluniau ar y cyd ag Addysg

Mae'r cynlluniau hyn yn ddelfrydol i fyfyrwyr sydd wrth eu bodd yn eu pynciau ac yn dymuno astudio rhywbeth newydd. Maen nhw'n cael eu cynnig gan yr Ysgol Addysg ar y cyd ag adrannau eraill yn y Brifysgol. Mae gan y myfyrwyr Diwtoriaid Personol yn eu dwy adran academaidd.

Mae tri math o gynllun:

## Graddau ag Addysg yn Brif Bwnc

Graddau BA yw'r rhain a bydd dwy ran o dair o'ch astudiaethau'n digwydd yn yr Ysgol Addysg. Bydd hyn yn golygu bod un rhan o dair o'ch cwrs yn cynnwys astudio pwnc o'ch dewis chi. Bydd dilyn un o'r cyrsiau hyn yn eich galluogi i wneud cais am gyrsiau TAR Cynradd, gyda sicrwydd o gyfweliad yn Aberystwyth.

## Graddau Cyd-anrhydedd gydag Addysg

Graddau BA neu BSc 'hanner a hanner' yw'r rhain lle mae'r ddau bwnc yn cymryd 50% o'ch amser. Os ydych yn ystyried addysgu'ch pwnc mewn ysgol Uwchradd, cewch wneud cais am gyrsiau uwchradd TAR ar sail y graddau hyn. Gallwch hefyd ymgeisio am TAR Cynradd, gyda sicrwydd o gyfweliad ar gyfer pob pwnc sy'n cael ei addysgu yn Aberystwyth.

## Graddau ag Addysg yn Is-bwnc

Graddau BA neu BSc yw'r rhain lle bydd dwy ran o dair o'ch astudiaethau'n digwydd mewn adran arall yn y Brifysgol, ac un rhan o dair yn yr Ysgol Addysg. Os ydych yn ystyried addysgu'ch pwnc mewn ysgol Uwchradd cewch wneud cais am gyrsiau uwchradd TAR ar sail y graddau hyn. Gallwch hefyd ymgeisio am TAR Cynradd, gyda sicrwydd o gyfweliad ar gyfer pob pwnc sy'n cael ei addysgu yn Aberystwyth.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i
**www.aber.ac.uk/cy/education/study-with-us/undergraduate/courses**

## Modiwlau craidd

Mae modiwlau craidd pob un o'r cynlluniau hyn yn cynnwys:

- Polisïau a Materion mewn Addysg
- Seicoleg Dysgu a Meddwl.



# Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun | Prif/is-bwnc |
|---|---|---|---|
| **Addysg** | Celfyddyd Gain | WX13 | |
| | Cyfryngau | P3X3 | |
| | Cymraeg | QX53 | |
| | Drama a Theatr | WX43 | |
| | Ffiseg | | F3X3 |
| | Hanes | VX13 | |
| | Llenyddiaeth Saesneg | QX33 | |
| | Mathemateg | GX13 | G1X3 |
| | Sbaeneg | | X3R4 |
| | Seicoleg | CX80 | |



# Addysg (gyda blwyddyn sylfaen integredig)

75% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

Bydd ein gradd Addysg gyda blwyddyn sylfaen integredig yn ceisio datblygu'ch gwybodaeth a dealltwriaeth am rôl addysg mewn gwahanol gyd-destunau ac ystod eang o ysgolion, lleoliadau addysgol a darparwyr ôl-16. Wedi'i gynllunio ar gyfer darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir academaidd digonol neu berthnasol, mae'r cwrs blwyddyn sylfaen integredig yn ddewis perffaith i gael mynediad i'r cynllun gradd hynod boblogaidd hwn.

Bydd ein gradd mewn Addysg gyda blwyddyn sylfaen integredig yn eich galluogi i archwilio gwahanol agweddau ar addysg, ac yn cwmpasu materion sy'n hanfodol er mwyn deall dysgu ac addysgu. Gyda man cychwyn academaidd sicr yn y Flwyddyn Sylfaen, mae'r radd yn cynnwys agweddau ar seicoleg, cymdeithaseg, gwleidyddiaeth, a hanes. Mae'n ymchwilio i sut mae pobl yn dysgu, sut mae eu hamgylcheddau'n dylanwadu ar eu dysgu, sut rydym yn gwneud penderfyniadau, a sut mae ein dealltwriaeth o ddysgu ac addysgu wedi datblygu dros y blynyddoedd. Ceir ffocws penodol ar gefnogi dysgwyr trwy gydol y system addysg.

Cyhyd â'ch bod yn bodloni'r gofynion mynediad, cewch warant o gyfweliad am y Dystysgrif Addysg i Raddedigion Cynradd (TAR) yn Aberystwyth.

**Sylwch:** Bydd angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriad cyfatebol er mwyn dilyn rhai o fodiwlau'r radd hon.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn y cwrs hwn. Yn ystod eich gradd cewch gyfle i ymgymryd â lleoliadau gwaith gyda rhai modiwlau. Ar ôl graddio byddwch yn gallu ymgeisio am y TAR ar gyfer dysgu cynradd. Gyda gradd mewn Addysg â phwnc arall, mae'n bosib y byddwch yn gymwys ar gyfer y cyrsiau TAR ar lefel Uwchradd.

Mae graddedigion eraill o'r Ysgol Addysg wedi dilyn llwybrau gyrfaol yn y meysydd canlynol: gofal cymdeithasol, nyrsio, therapi lleferydd, gwaith cymdeithasol, lles plant, therapi chwarae, y diwydiant hamdden, cyfraith plant, ac ymchwil plentyndod.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Sylfaen Sgiliau Academaidd 1 a 2/Academic Skills Foundation 1 & 2
- Critical Thinking and Research Skills
- Foundation - Dialogue
- Foundation In Liberal Arts
- Learning Experience.

**Yr ail flwyddyn:**
- Datblygiad a Dysgu Plant/ Children's Development and Learning
- Polisiau a Materion mewn Addysg/Policies and Issues in Education
- Datblygiad Iaith/Language Development
- Sgiliau Allweddol I Brifysgol/Key Skills for University.

**Y drydedd flwyddyn:**
- Seicoleg Dysgu a Meddwl/Psychology of Learning and Thinking
- Dulliau Ymchwil/Research Methods
- Gweithio gyda Phlant/Working with Children
- Diogelu ac Ymarfer Proffesiynol/Safeguarding and Professional Practice.

**Y flwyddyn olaf:**
- Hawliau Plant/Children's Rights
- Gwerthuso ac Adlewyrchu ar Sgiliau Dysgu yn Gritigol/Critically Reflecting and Evaluating Learning and Skills
- Traethawd Hir/Major Dissertation
- Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol/ Emotional and Social Development.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BSc.

**Cod UCAS:** X30F.

**Hyd:** 4 blynedd.





# Addysg Gychwynnol i Athrawon (TAR)

## Cynradd ac Uwchradd

Mae gennym hanes hir o ddarparu rhaglenni gradd arloesol i ddarpar athrawon. Ers 1872, mae ein dulliau addysgu ar sail ymchwil ac ymarfer wedi magu cenedlaethau o athrawon llwyddiannus sy'n gallu ysbrydoli disgyblion, o blith myfyrwyr o bob cwr o'r byd.

Mae Addysg Gychwynnol i Athrawon (TAR) yn rhoi ichi'r cyfle i hyfforddi fel athrawon mewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd ac i ddeall dilyniant mewn gwahanol gyfnodau addysgu.

Rydym yn cynnig hyfforddiant mewn pynciau sy'n cynnwys: Bioleg, Ffiseg, Cemeg, Mathemateg, Ieithoedd Modern (Ffrangeg, Sbaeneg), Cymraeg, Llenyddiaeth Saesneg a Drama.

Byddwch yn cael eich addysgu a'ch mentora gan ymarferwyr sydd â phrofiad, gwybodaeth a sgiliau helaeth tra'n astudio yn y brifysgol ac yn ystod eich cyfnod ymarfer dysgu. Yn ogystal â chael profiad ymarferol, byddwch yn astudio'r modiwlau canlynol: Astudiaethau Proffesiynol; Gwerthuso Dysgu a Sgiliau, Addysgeg Effeithiol; Gwybodaeth Addysgeg a Chwricwlwm. Caiff y modiwlau eu dysgu gan staff sy'n arbenigwyr yn y pwnc a'r cyfnod addysgu.

Rydym mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y canolbarth a'r gorllewin. Mae'n partneriaid hefyd yn ein cynorthwyo â'r cyfweliadau, felly cewch gyfarfod un o'n partneriaid yn ystod eich cyfweliad TAR.

Mae profion Cyfwerthedd ar gael i gwrdd â gofynion cyfredol Llywodraeth Cymru o ran TGAU Mathemateg, Cymraeg neu Saesneg (Cynradd ac Uwchradd) a Gwyddoniaeth (Cynradd), Profion yw'r rhain i fyfyrwyr nad ydynt wedi ennill y graddau priodol ac fe'u cynhelir yn y Brifysgol. Mae cefnogaeth ar gael i baratoi ar gyfer y profion.

Yn rhan o'r drefn ymgeisio, gyfynnir i bob ymgeisydd sefyll profion mynediad sy'n cynnwys Rhifedd, Llythrennedd (Saesneg) a phrawf Llythrennedd Cymraeg (i'r rhai fydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig). Ceir rhagor o wybodaeth am y Profion Mynediad ar y dudalen benodol ar y wefan.

Prifysgol Aberystwyth yw'r unig brifysgol yng Nghymru sydd wedi'i henwi'n Brifysgol y Flwyddyn ar sail Ansawdd ei Haddysgu ddwywaith yn olynol gan y Times and Sunday Times Good University guide (2018 a 2019).

Enillodd y Brifysgol y Wobr Aur am Astudiaethau Uwchraddedig yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr What University 2019 hefyd.

### Addysg Gychwynnol i Athrawon (TAR)

**Cynradd**

- Cynradd (3 -11) (TAR, 1 blwyddyn)

**Uwch**

- Bioleg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys (TAR, 1 flwyddyn)
- Cemeg gyda Gwyddionaeth Gytbwys (TAR, 1 flwyddyn)
- Cymraeg (TAR, 1 flwyddyn)
  Daearyddiaeth (TAR, 1 flwyddyn)
- Drama (TAR, 1 flwyddyn)
- Ffiseg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys (TAR, 1 flwyddyn)
- Hanes (TAR, 1 flwyddyn)
- Ieithoedd Modern (Ffraneg, Sbaeneg) (TAR, 1 flwyddyn)
- Mathemateg (TAR, 1 flwyddyn)
- Saesneg (TAR, 1 flwyddyn)





# Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gennym ymrwymiad cryf i addysgu trwy'r Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'n darpariaeth cyfrwng-Cymraeg. Mae'n modiwlau craidd a nifer cynyddol o fodiwlau dewisol yn cael eu cynnig drwy'r Gymraeg. Mae gan y myfyrwyr cyfrwng-Cymraeg eu cynrychiolydd academaidd eu hunain sy'n gofalu am eu buddiannau mewn cyfarfodydd rhwng staff a myfyrwyr.

Rydym yn annog y myfyrwyr i ddewis modiwlau cyfrwng-Cymraeg. Bydd rhai'n dewis un neu ddau ac eraill yn dewis cynifer ag y bo modd. Cewch ysgrifennu'r holl aseiniadau ac arholiadau ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg neu Saesneg yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae'r holl waith ysgrifenedig yn y Gymraeg yn cael ei farcio gan diwtoriaid Cymraeg eu hiaith. Gallwn sicrhau hefyd fod yr holl fyfyrwyr cyfrwng-Cymraeg yn cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg i'w harwain drwy eu hastudiaethau.

Mae'r modiwl Sgiliau Allweddol i Brifysgol yn cynnig y sgiliau allweddol a fydd yn helpu myfyrwyr cyfrwng-Cymraeg i bontio o'r ysgol neu'r coleg i'r Brifysgol. Hefyd, gall y Brifysgol gynnig rhagor o gymorth i ddatblygu a gwella sgiliau academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) i ehangu a gwella ystod yr addysg cyfrwng-Cymraeg sydd ar gael ac mae rhai cynlluniau'n gymwys ar gyfer ysgoloriaethau'r Coleg Cenedlaethol Cymraeg. I gael rhagor o fanylion gweler **www.aber.ac.uk/cy/ccc**







# Cyflogadwyedd

## Canlyniadau graddedigion yr Ysgol Addysg

Mae'n cyrsiau ni'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd er mwyn sicrhau eich bod yn symud yn rhwydd o'ch gradd i'ch gyrfa. Mae un o'n darlithwyr yn gweithredu fel Cydlynydd Cyflogadwyedd, gan drefnu cynadleddau a sesiynau cyson gyda siaradwyr o amrywiaeth o feysydd gyrfaol. Rydyn ni hefyd yn annog ein myfyrwyr i wirfoddoli, gartref neu yn yr ardal leol, am fod profiad ymarferol bob amser yn werthfawr wrth benderfynu ar eich gyrfa yn y dyfodol ac wrth ymgeisio am swydd.

Mae gan y Brifysgol gynllun Blwyddyn mewn Diwydiant. Gall myfyrwyr sy'n dymuno cwblhau blwyddyn mewn diwydiant wneud hynny rhwng yr ail a'r drydedd flwyddyn o'r radd.

Dewis arall yw astudio dros y môr am gyfnod o amser. Gallwch ddewis cymryd rhan yn ein Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol, er enghraifft.

Rydym yn gwybod bod llawer o'n myfyrwyr yn ystyried gyrfa fel athrawon, Cynradd neu Uwchradd. Os nad yw gyrfa fel athro neu athrawes yn apelio i chi, dyma rai o'r gyrfaoedd mae'n myfyrwyr ni wedi'u dilyn: Gofal Cymdeithasol; Nyrsio; Therapi Lleferydd; Gwaith Cymdeithasol; Lles Plant; Therapi Chwarae; Cyfraith Plant.



# Proffiliau myfyrwyr

## Michelle

Yn wreiddiol, roeddwn i am hyfforddi fel seicotherapydd plant, ond roeddwn i wrth fy modd drwy gydol fy nghyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth, a thra'n ysgrifennu fy nhraethawd hir fe ddarganfyddes i gariad at ymchwil, ac wedyn penderfynes i gofrestru ar gwrs ôlraddedig. Erbyn hyn, rwy'n gweithio ar brosiect ymchwil tymor-hir fy hun. Rwy'n ymchwilio i'r gwerthoedd a'r hunanhyder sy'n galluogi plant i lwyddo. Gyda'r ymchwil hon, byddaf yn dylunio strategaeth ymyrryd i annog plant yng Nghymru i fagu cariad at ddysgu ac i ganfod eu potensial.

Rydyn ni'n dwy yn teimlo bod y sgiliau a ddatblygon ni fel israddedigion wedi rhoi sylfaen i ni ar gyfer astudio ar y lefel hon. Mae'r cwrs a'r holl staff wedi bod yn wych - yn ein hannog, ein cefnogi a'n croesawu - ac maent yn parhau i wneud hynny.

## Katherine

Mynd i Aber oedd un o benderfyniadau gorau fy mywyd i, a thrwy symud oddi cartref fe fages i'r ymdeimlad o annibyniaeth yr oedd ei hangen arnaf. Mae'r Brifysgol yn gefnogol iawn pan maen angen cymorth arnoch gydag unrhyw beth, ac mae'ch tiwtoriaid personol yno ichi bob cam o'r ffordd! Ers graddio dwi wedi bod yn astudio am y TAR. Mae hynny'n mynd yn dda ac rwy'n gobeithio y bydda i'n dysgu'n llawn-amser ym mis Medi. Heb gymorth y ffrindiau wnes i yn Aber a'r staff fyddwn i ddim wedi cyrraedd ble rydw i nawr. Mae'r ffrindiau a wnewch chi yma yn ffrindiau am oes ac mae staff yr adran yn wych - y gorau yn y byd. Mae'r TAR yn ffordd wych i mewn i lawer o swyddi gyda phlant sy'n rhagorol.

## Sophie

Fe raddies i gyda gradd mewn Astudiaethau Plentyndod. Fe fwynheues i fy nhair blynedd yn y Brifysgol yn fawr ac rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth a'r anogaeth nid yn unig gan fy narlithwyr ond gan bawb yn yr adran. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio fel Swyddog Cefnogi Iaith i'r Tîm Sgiliau Sylfaenol yn fy nghyngor lleol. Rydyn ni'n darparu sesiynau iaith a chwarae i blant dan oed ysgol a'u teuluoedd. Rwy'n gweithio'n agos gydag ymwelwyr iechyd i ddarparu cynlluniau cymorth i deuluoedd. Rydym yn darparu cymorth bob dydd i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae fy swydd wedi rhoi'r cyfle i roi fy ngwybodaeth o'r radd ar waith.

## Annabel

Yn wreiddiol roeddwn i eisiau mynd ar drywydd menter busnes ar ôl graddio, ond tra'n astudio'r amrywiol fodiwlau, cefais flas ar ddysgu a oedd yn anodd i'w anwybyddu. Fe benderfynes i mai dal ati i astudio ym maes ymchwil addysgol oedd y llwybr roeddwn i am ei ddilyn. Erbyn hyn, rwy'n fyfyriwr doethuriaeth ôlraddedig (PhD). Testun fy ymchwil doethuriaeth yw cyfoedion yn mabwysiadu strategaethau ymddygiad 'sy'n hybu cymdeithas'. Rwy'n gobeithio datblygu a pheilota fy strategaeth atal/ymyrryd am well lles yn yr holl ysgolion a gwell canlyniadau cymdeithasol yng Nghymru.



# Ymchwil

## yr Ysgol Addysg

Mae ymchwil yr Ysgol Addysg yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

### 1. Ymchwil mewn addysgu, dysgu ac addysgeg:

- Sut mae dysgwyr yn dysgu
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o bynciau
- TGCh a dysgu
- Athrawon a dysgu proffesiynol
- Datblygu'r cwricwlwm
- Asesu ar gyfer dysgu
- Addysg ddwyieithog.

### 2. Astudiaethau Plentyndod:

- Sut mae plant yn datblygu ac yn dysgu
- Astudiaethau rhywedd
- Caffael iaith a datblygu iaith
- Iechyd a llesiant
- Ysgolion iach
- Anghenion dysgu ychwanegol.

### 3. Polisi Addysgol:

- Partneriaeth a chydweithredu mewn addysg
- Addysg wledig
- Datblygu'r gweithlu mewn addysg
- Arweinyddiaeth mewn addysg
- Addysg gymunedol
- Polisi addysg cenedlaethol a lleol a'r effaith ar ysgolion bach.







# Cyfleoedd byd-eang





Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth gyffrous o ddewisiadau ichi fynd dramor am ran o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd i wirfoddoli yn ystod yr haf i dreulio semester neu flwyddyn lawn yn astudio'r pwnc o'ch dewis yn un o'r prifysgolion sy'n bartner inni.

Mae'r brifysgol hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn astudio dramor. Mae hyn yn eich galluogi i astudio yn un o'n prifysgolion partner yn Ewrop neu mewn rhan arall o'r byd am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd blwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn derfynol ac i raddio.

Mae adroddiadau'n dangos bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o gyflog na'u cyfoedion. Cymrwch fantais o'r cyfle unigryw hwn i wella eich sgiliau allweddol trwy ddewis astudio dramor.


Sbaen


Sydney


Iwerddon


Montana


St. Petersburg


Hong Kong


Washington, DC


Siapan


Ottawa

# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**Gair i gall:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**Gair i gall:** Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

## 7 Dechreuwch bacio!








Ysgol Addysg,
Prifysgol Aberystwyth,
Penbryn 5,
Campws Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3UX

+44 (0)1970 62 1537

add-ed@aber.ac.uk

@EducationAtAber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2021.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%